COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 9 EBRILL 2025 16:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd H Griffiths – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | JPD Blundell | E L P Caparros |
| RJ Collins | HJ David | C Davies | P Davies |
| S Easterbrook | M J Evans | N Farr | J Gebbie |
| RM Granville | GH Haines | M L Hughes | D M Hughes |
| M Jones | W J Kendall | J E Pratt | I M Spiller |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | A Ulberini-Williams | A Wathan |
| I Williams | E D Winstanley | T Wood | |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | F D Bletsoe | S J Bletsoe | N Clarke |
| C L C Davies | P Ford | W R Goode | S J Griffiths |
| D T Harrison | RM James | M R John | J Llewellyn-Hopkins |
| RL Penhale-Thomas | R J Smith | JC Spanswick | G Walter |
| AJ Williams | HM Williams | MJ Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P W Jenkins, M Lewis R Williams a Janine Nightingale, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch-swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol |
| Zak Shell | Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol |
| Oscar Roberts | Prentys Busnes Gweinyddol – Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Y Cyngh. E Winstanley – Personol – Eitem 6, gan ei bod yn ymwneud drwy ei gwaith â sawl prosiect a restrir o dan Amcan 1 yn yr adroddiad hwnnw.

## 130. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Y caiff cofnodion cyfarfodydd y Cyngor ar 26 Chwefror 2025 a 12 Mawrth 2025 eu cymeradwyo fel cofnodion gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Ebrill 2025 |

## 131. Derbyn cyhoeddiadau gan:

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Aelodau Cabinet canlynol a'r Prif Weithredwr (dim penderfyniadau yn ofynnol/wedi'u gwneud):-<br>• Y Maer; |

| | |
|---|---|
| | • Y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd;<br>• Y Prif Weithredwr |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Ebrill 2025 |

**132. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (dim penderfyniadau yn ofynnol/wedi'u gwneud). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Ebrill 2025 |

**133. Adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2025/26**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad, oedd amlinellu fersiwn wedi'i diweddaru o Gynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2025/26 i'r Cyngor ei chymeradwyo.<br><br>Cafwyd cwestiwn gan Gynghorwyr am amseriad yr adroddiad o ystyried newidiadau posibl i lefelau staffio. Cafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad a'r Dirprwy Arweinydd – Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:<br>• Yn cymeradwyo Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2025/26 yn Atodiad 1;<br>• Yn cymeradwyo'r targedau dangosyddion perfformiad ar gyfer 2025/26 yn Atodiad 2. |

| | |
|---|---|
| | Diolchodd y Cyngor ymhellach i'r Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad a'i dîm am eu gwaith ar yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Ebrill 2025 |

## 134. Adolygiad Craffu

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am waith yn dilyn argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru mewn adroddiad ar drefniadau gwneud penderfyniadau'r Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024, er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau ystyried trefniadau craffu newydd, a gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Protocol Craffu yn dilyn Adolygiad Craffu a gynhaliwyd yn 2024.<br><br>Awgrymwyd y dylid dileu'r awgrym ynghylch swydd cadeirydd taledig ychwanegol a amlinellir yn yr argymhellion, ond roedd rhai aelodau'n anghytuno gan y byddai'r penderfyniad hwn yn arwain at wanhau'r taliadau cyflog presennol ymhlith grwpiau gwleidyddol.<br><br>Rhannodd aelodau bryderon ynglŷn ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru i ymestyn Blaenraglenni Gwaith Craffu chwe mis i'r dyfodol, gan gyfeirio at ansicrwydd ynghylch amserlennu eitemau i gyfarfodydd yn y dyfodol ac unrhyw anghywirdebau posibl y gallai hyn eu hachosi.<br><br>Cafwyd cwestiynau gan Gynghorwyr am y canlynol:<br><br>• Edrych ar arferion cynghorau eraill ar gyfer Blaenraglenni Gwaith, fel ymarfer meincnodi.<br>• Hefyd, ystyried lleihau terfynau amser ar gyfer cyfarfodydd Trosolwg a Chraffu, yn amodol ar gytundeb y Cadeirydd.<br>• Y rôl a fydd gan Gynghorwyr nad ydynt mewn grwpiau gwleidyddol ar y pwyllgorau craffu newydd arfaethedig.<br>• Pryd y byddai'r newidiadau a awgrymir neu a argymhellir yn yr adroddiad neu yn ystod y drafodaeth |

yn debygol o gael eu gwneud.
- Y broses ar gyfer galw i mewn i Bwyllgorau Craffu a pherchnogaeth yr achosion hyn o alw i mewn ymhlith Pwyllgorau Craffu.

Cafwyd ymateb i'r cwestiynau hyn gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, ac Arweinydd y Cyngor.

Cadarnhaodd yr Arweinydd, pe bai unrhyw Gadeirydd ychwanegol yn cael tâl yn dilyn yr Adolygiad Craffu, yna gan nad oedd cyllideb ychwanegol ar gyfer hyn, y byddai unrhyw ailddyraniad o lwfansau cyflogau uwch yn deillio o'r hyn sydd wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd i Gadeiryddion Pwyllgorau fel rhan o lwfansau uwch sydd wedi'u dyrannu, gydag unrhyw addasiadau'n adlewyrchu llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r pwyllgor penodol hwnnw ochr yn ochr ag unrhyw ffactorau eraill posibl.

Cafwyd pleidlais ar argymhelliad 3 yr adroddiad, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:-

| O blaid | Yn erbyn |
|---|---|
| 26 | 20 |

Cytunodd yr aelodau i ailenwi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc er mwyn adlewyrchu'r Cyfarwyddiaethau a gefnogir ganddynt yn well. Roedd yr aelodau'n unfrydol o'r farn na ddylai Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fod yn aelod o grŵp mwyafrifol y Cyngor. Ar y cyfan, roedd yr aelodau'n cytuno na ddylai'r un cyfarfod pwyllgor bara mwy na thair awr, ond ychwanegwyd mai Cadeiryddion y pwyllgorau fyddai'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â hyn, fel yr aelodau sy'n llywyddu'r cyfarfodydd.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor:
- Yn nodi'r cynnydd a oedd wedi'i wneud mewn perthynas ag argymhellion Archwilio Cymru fel rhan o'i ‘Adolygiad o Drefniadau Gwneud Penderfyniadau’ ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- Yn nodi'r opsiynau strwythur a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn ac argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ac yn cymeradwyo opsiwn 2 fel y strwythur craffu y cytunir arno, i'w roi ar waith yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 14 Mai 2025;
- Wedi penderfynu bod angen Cadeirydd taledig ychwanegol ac wedi cytuno mewn egwyddor cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, yn dilyn newidiadau angenrheidiol i'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol, gan nodi y telir am hyn o'r gyllideb bresennol ar

| | |
|---|---|
| | gyfer Aelodau, a fydd yn arwain at gael gwared ar lwfansau cyflog uwch eraill;<br>• Yn cymeradwyo newid i aelodaeth pob Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu i 14 o Aelodau, i ddod i rym fel rhan o'r strwythur craffu y cytunwyd arno;<br>• Yn cymeradwyo'r Protocol Craffu, a oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, i gael ei ddosbarthu wedyn a'i lofnodi gan yr holl Aelodau Craffu, y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol;<br>• Yn nodi y caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ceisio cymeradwyaeth i ddiwygio'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r Cylch Gorchwyl, yr Aelodaeth a'r Rheolau Gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu diwygiedig o ganlyniad i'r strwythur diwygiedig, gan nodi y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn arwain ar Graffu Cyllidebol o hyn ymlaen.<br><br>Hefyd, diolchodd y Cyngor i'r Swyddogion am eu cyfraniadau at baratoi'r adroddiad a llunio'r opsiynau i'r Cyngor eu hystyried, ac i'r tîm Trosolwg a Chraffu am eu gwaith yn y cyfarfodydd a gefnogir ganddynt. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Ebrill 2025 |

**135. Hysbysiad o Gynnig a wneir gan**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Amlinellodd y Cynghorydd Ian Williams ei Hysbysiad o Gynnig, a oedd wedi'i eirio yn unol â'r hyn a oedd ar agenda'r cyfarfod.<br><br>Cafwyd cwestiwn gan Gynghorwyr ynghylch a oedd y Cyngh. Williams wedi cyfeirio at ymrwymo i ddatganiad Llywodraeth Cymru. Cafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan yr aelod.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Gwnaeth yr Aelodau drafod y cynnig, a chafodd ei gynnig a'i eilio yn dilyn newid i ychwanegu paragraff pellach:<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod sylwadau diweddar yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â chyfyngiadau'r dulliau presennol o fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a bwriad Llywodraeth Cymru i newid cyfraith amgylcheddol er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu ar fioamrywiaeth. Yn unol â hynny, mae'r Cyngor yn ymrwymo i weithio'n rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau newydd ar gyfer diogelu |

| | |
|---|---|
| | ac adfer bioamrywiaeth, a disgwylir i hynny gael ei gynnwys mewn deddfwriaeth amgylcheddol newydd er mwyn i ni allu mynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd sy'n mynd rhagddo, a gafodd ei ddatgan gan y Senedd yn 2021. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Ebrill 2025 |

## 136. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Ebrill 2025 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 17:30